# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 5 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.00 - 12.26** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2683**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC**<br>**William Powell AC** |
| Tystion: | **Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru**<br>**Nicholas Paines, Law Commission**<br>**David Connolly, Law Commission**<br>**Tom Frawley, Northern Ireland Ombudsman** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Ail Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Richard Bettley (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Black AC ac Alun Ffred Jones AC.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd William Powell AC a oedd yn dirprwyo ar ran Peter Black AC.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**(Penderfynodd y Pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42, i gwrdd yn breifat ar gyfer eitem 3, 4, 5 a 6.)**

## 3 Ystyriaeth Gychwynnol o'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

3.1 Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru).

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i roi tystiolaeth ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ac i ysgrifennu at bob awdurdod lleol a fynegodd ddiddordeb i uno'n wirfoddol i ofyn am wybodaeth ar y gost o lunio achosion busnes.

## 4 Ystyried Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chynllun Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015-2016

4.1 Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y cynigion i ymgorffori Cynllun Blynyddol 2015-2016 Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru mewn cynllun busnes tair blynedd. Cytunodd y Pwyllgor i ymateb yn ysgrifenedig gan ofyn i'r cynllun blynyddol barhau i gael ei gwblhau fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## 5 Perfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad - Ebrill-Rhagfyr 2014

5.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad Perfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad ar y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2014.

5.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i ysgrifennu at Claire Clancy am ragor o wybodaeth.

## 6 Treth Trafodiadau Tir: Papur briffio ffeithiol gan Lywodraeth Cymru

6.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru wybodaeth i'r Pwyllgor ar Dreth Trafodiadau Tir.

## 7 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 5

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiwn y Gyfraith ar ei ymchwiliad i Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 8 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 6

8.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiwn y Gyfraith ar ei ymchwiliad i Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

9.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod y dystiolaeth

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.